



ERS
Research &
Consultancy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwerthusiad o Raglen Treftadaeth Ddigidol Casgliad y Werin Cymru / People's
Collection Wales

Adroddiad Effaith Atodiad 2: Canlyniadau Arolwg Defnyddwyr



ERS

30 Queen Square
Bristol
BS1 4ND

T: 0117 927 3401

F: 0117 929 4189

E: bristol@ers.org.uk

www.ers.org.uk

CANLYNIADAU AROLWG DEFNYDDWYR CASGLIAD Y WERIN CYMRU 2016

Mae'r Atodiad hwn yn cyd-fynd ag adroddiad Gwerthusiad Terfynol Casgliad y Werin 2016 ac mae'n cyflwyno canlyniadau'r E-holiadur i Ddefnyddwyr Casgliad y Werin 2016, a gynhaliwyd gan ERS fel rhan o'r gwerthusiad ar raglen Casgliad y Werin Cymru. Ceir yma hefyd ddadansoddiad o'r cwestiwn "Pa 6 gair fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio rhaglen Casgliad y Werin" a ofynnwyd yn ehangach i bob grŵp ymgynghori (nid ymatebwyr yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr yn unig). Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg cyn cyflwyno canfyddiadau'r arolwg. Mae'r canfyddiadau yn seiliedig ar 38 o ymatebion llawn i'r e-holiadur ac mae'n ymwneud â gweithredu'r rhaglen rhwng 2014 a 2016.

Trosolwg o'r Fethodoleg

Cynhaliodd ERS e-holiadur i ddefnyddwyr Casgliad y Werin yn 2016. Cynhaliwyd e-holiadur defnyddwyr o'r blaen gan ERS yn 2014. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau craidd wedi aros heb eu newid ar gyfer arolwg 2016 er mwyn gallu cymharu. Fel yn 2014, cynigwyd yr holiadur yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Yn ôl amcangyfrif tîm y rhaglen, mae yna tua 3000 o ddefnyddwyr cofrestredig ar wefan Casgliad y Werin. Oherwydd rhesymau diogelu data, nid oedd yn bosibl i ERS anfon yr arolwg yn uniongyrchol at yr holl ddefnyddwyr cofrestredig trwy e-bost. O gofio'r gyfradd ymateb isel i e-holiadur y gwerthusiad interim pan na ellid gwneud dim ond ei gyhoeddi ar y wefan yn ystod y cyfnod adnewyddu technegol (sef 15 ymateb wedi'u cwblhau), roedd hi'n holl bwysig fod dulliau dosbarthu uniongyrchol yr holiadur ar gyfer y gwerthusiad terfynol yn cael cyfradd ymateb uwch er mwyn sicrhau canlyniadau cadarn.


Y tro hwn gosodwyd dolen i'r holiadur ar hafan gwefan Casgliad y Werin a hyrwyddwyd yr holiadur ar y cyfryngau cymdeithasol (yn ddwyieithog yn y ddau achos). Yn ogystal, dosbarthwyd yr holiadur i restr bostio cylchlythyr tanysgrifwyr Casgliad y Werin (cyfanswm o 385 o unigolion ar adeg yr arolwg). Derbyniwyd 38 o ymatebion cyflawn (o gyfanswm o 70 o ymatebwyr a ddechreuodd yr holiadur), felly llwyddwyd i gael cyfwng hyder (*confidence interval*) o 11.58 +/- 11.58%. Mae hyn yn welliant mawr o'r astudiaeth flaenorol; er y byddai cyfwng hyder o dan 10 y cant wedi bod yn fwy dymunol. Daeth 33 o'r ymatebion cyflawn hyn drwy'r fersiwn Saesneg a 5 drwy'r un Cymraeg.

Cafwyd cynnydd sydyn yn nifer yr ymatebion ar adeg cyhoeddi'r cylchlythyr (cyfanswm o 13 ymateb ar 16 Chwefror), felly mae'n debygol iawn fod yr ymatebwyr wedi dod o'r gronfa o 385 o danysgrifwyr y cylchlythyr, yn hytrach nag o blith y 3000 o ddefnyddwyr. Mae'r ymatebion i'r holiadur a gyflwynir yn yr adroddiad hwn felly yn ddangosol ac fe'u cyflwynir fel barn unigolyn ac/neu astudiaethau achos yn hytrach na bod yn gynrychioliadol o'r holl ddefnyddwyr cofrestredig. Byddai'n fuddiol gwella ymhellach y sianelau adborth a chyfathrebu gyda defnyddwyr presennol er mwyn cynyddu faint o wybodaeth sydd ar gael ynghylch eu hymddygiad, eu dewisiadau, meddylfryd, a'u barn.

CANFYDDIADAU'R AROLWG


Pwy oedd yr ymatebwyr?

Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd yn byw yng Nghymru.



Mapio Cod Post

O ddadansoddi, gwelir bod 3 o'r ymatebwyr wedi'u lleoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig, gyda'r rhan fwyaf yn byw yng Nghymru. Mae'r ymatebwyr wedi'u dosbarthu'n eang ar draws gwahanol ardaloedd Cymru, gan fod â chrynodiad penodol mewn ardaloedd poblog.




Demograffeg yr ymatebwyr:

- Roedd gan gyfran uchel yr ymatebwyr gymwysterau ar lefel uwch.
- Roedd mwy o ymatebwyr yn y categorïau oedran hŷn, yn enwedig dros 60 oed.
- Roedd ymatebwyr gan amlaf wedi nodi eu hunain i fod yn Gymry ac/neu fod ganddynt hanes teulu o Gymru.

Beth wnaeth yr ymatebwyr?

Rhyngweithio'r ymatebwyr â rhaglen Casgliad y Werin

- Rwyf wedi pori drwy wefan Casgliad y Werin
- Rwyf wedi defnyddio gwefan Casgliad y Werin er mwyn dysgu mwy am bwnc penodol
- Rwyf wedi defnyddio deunydd o wefan Casgliad y Werin at fy nibenion/diddordeb personol fy hunan
- Rwyf wedi lanlwytho cynnwys (naill drwy'r wefan, neu mewn Gorsaf Treftadaeth Ddigidol)
- Rwyf wedi dilyn Casgliad y Werin ar Twitter neu Facebook
- Rwyf wedi rhannu cynnwys o Casgliad y Werin ar blatfformau digidol eraill (e.e. Facebook, Twitter)
- Rwyf wedi mynychu digwyddiad neu sesiwn hyfforddi Casgliad y Werin
- Rwy'n defnyddio/ymwneud â Casgliad y Werin fel rhan o fy ngwaith neu fel rhan o weithgarwch gwirfoddoli ffurfiol




O'r rhestr o ddewisiadau a roddwyd, roedd ymatebwyr yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi pori drwy wefan Casgliad y Werin. Roedd hefyd yn gyffredin i ymatebwyr ddefnyddio Casgliad y Werin i ddysgu mwy am bwnc penodol, ac/neu ddefnyddio deunyddiau er diddordeb personol.

Llwybrau, Apiau, ac iBeacon


Gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent erioed wedi defnyddio unrhyw un o lwybrau, teithiau cerdded, neu deithiau Casgliad y Werin, megis llwybrau clywedol, mapiau, neu lwybrau iBeacon. Nid oedd y mwyafrif o ddefnyddwyr wedi'u defnyddio, ac ni roddodd y 5 a oedd wedi'u defnyddio unrhyw fanylion pellach ynghylch pa effaith yr oedd hyn wedi'i gael ar eu gweithgareddau.

Sut y daeth defnyddwyr i gysylltiad â Chasgliad y Werin?


Y ffordd fwyaf cyffredin i ddefnyddwyr glywed gyntaf am raglen Casgliad y Werin oedd drwy chwilio ar y we (25%). Roedd llwybrau eraill yn cynnwys cysylltiad drwy eu hamgueddfa, llyfrgell neu archifdy lleol (15%), neu drwy LinkedIn (11%), sy'n awgrymu tebygolrwydd o gysylltiad proffesiynol ac/neu gysylltiad sydd eisoes yn bodoli â'r sector treftadaeth. Dewisodd chwarter yr ymatebwyr "arall" a gofynnwyd iddynt ymhelaethu. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr ymatebwyr penodol hyn wedi clywed am Gasgliad y Werin trwy'r gwaith neu ddigwyddiad neu weithgaredd oedd yn gysylltiedig â gwaith.



Dewisiadau Defnyddwyr




Pa DRI o'r mathau canlynol o gynnwys yn ymwneud â threftadaeth Cymru sy'n apelio fwyaf atoch?





Bodlonrwydd Defnyddwyr


A wnaeth Casgliad y Werin ddiwallu eich anghenion?




Gofynnwyd i ddefnyddwyr i ba raddau y mae Casgliad y Werin wedi diwallu anghenion a nodwyd ganddynt yn y cwestiwn blaenorol (sef eu rheswm dros ymgysylltu). Yn gadarnhaol adroddodd 80 y cant o'r ymatebwyr fod y rhaglen wedi diwallu'r anghenion a nodwyd, gyda chyfran cymharol gyfartal yn nodi 'rhywfaint' ac 'yn fawr iawn'.

O'r rheiny a atebodd "dim llawer" neu "dim o gwbl", roedd eu cymhellion ar y dechrau yn gysylltiedig â "sut gallai Casgliad y Werin helpu fy ngrŵp/sefydliad" ac "fy niddordeb personol fy hun mewn diwylliant a threftadaeth". Roedd yr ymatebydd a atebodd "dim o gwbl" wedi chwilio drwy wefan Casgliad y Werin ac felly efallai nad oeddent wedi dod o hyd i ateb i'w hymholiad penodol ar-lein.





Cymhellion Defnyddwyr



Roedd defnyddwyr a fanylodd ynghylch cymhelliad i gymryd rhan a oedd yn wahanol i'r dewisiadau a roddwyd wedi sôn am y canlynol: ymchwil (e.e. ar gyfer erthygl Wicipedia, i gael gwybodaeth hanes teulu, neu luniau o ardal leol); i rannu eitemau neu brofiadau; neu oherwydd prosiectau penodol drwy waith neu addysg.

Barn Defnyddwyr

Gofynnwyd yn gyson y cwestiwn, 'Pa 6 gair fydddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio Casgliad y Werin?' yn yr holl ymgynghoriadau (Rhanddeiliaid a Phartneriaid Prosiect Allanol, Arweinwyr Llinynnau, y Tîm Craidd a'r Grŵp Rheoli Mewnol) ac yn yr e-holiaduron, er mwyn casglu gwybodaeth ynghylch sut y mae hunaniaeth, brand a swyddogaeth Casgliad y Werin yn cael eu gweld ledled grwpiau'r ymatebwyr.

Gwnaed yr ymchwil hwn ar ddwy adeg blaenorol yn llinell amser y rhaglen. Gofynnwyd y cwestiwn gan ERS fel rhan o ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd ar gyfer y Gwerthusiad Interim (2014). Roedd hyn, yn ei dro, yn ailadrodd ymchwil blaenorol¹ a ofynnwyd yn wreiddiol i: Grŵp Ymgynghorol Casgliad y Werin; uwch weithwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru; a Rheolwr Prosiect Casgliad y Werin. Y gobaith yw y gall y cwestiwn hwn fod yn bwynt cyfeirio i fonitro newidiadau yn argraff pobl am y rhaglen.

Cyflwynwyd cyfanswm o 272 o eiriau gan ymatebwyr yr e-holiadur. Roedd mwyafrif llethol y rhain yn gadarnhaol, gyda dim ond 10 gair y gellid eu categoreiddio o dan y thema 'negyddol'.

¹ Johnson, R. (2010), Traethawd estynedig gradd meistr

Tabl 2: Themâu'r "Chwe Gair"			
Diddorol (42 gair*)	Addysgol (32 gair*)	Treftadaeth/cadwraeth (28 gair*)	
Deinamig	Addysgol	Archif	<i>*Yn cynnwys gair wedi'i ailadrodd</i>
Deinamig	Addysgol	Archif	Allwedd
Galluogi	Addysgol	Treftadaeth	Arweinwyr Llinynnau a'r Grŵp Rheoli
Apelgar	Addysgol	Treftadaeth	Rhanddeiliaid a Phartneriaid Prosiect
Apelgar	Addysgol	Treftadaeth	Defnyddwyr / Grwpiau Cymunedol
Pleserus	Addysgol	Treftadaeth	
Pleserus	Meithrin dealltwriaeth	Treftadaeth	
Pleserus	Gwybodaeth	Treftadaeth	
Difyr	Gwybodaeth	Treftadaeth	
Difyr	Addysgiadol	Treftadaeth	
Cyffrous	Addysgiadol	Hanesyddol	
Cyffrous	Addysgiadol	Hanesyddol	
Cyffrous	Addysgiadol	Hanesyddol	
Cyffrous	Addysgiadol	Hanesyddol	
Cyfareddol	Addysgiadol	Hanesyddol	
Hwyl	Addysgiadol	Hanesyddol	
Hwyl	Addysgiadol	Hanesyddol	
Hwyl	Addysgiadol	Hanesyddol	
Hwyl	Addysgiadol	Hanesyddol	
Rhyngweithiol	Addysgiadol	Hanesyddol	
Diddorol	Gwybodus	Hanes	
Diddorol	Gwybodus	Hanes	
Diddorol	Gwybodus	Hanes Cymru	
Diddorol	Gwybodus	Gorffennol	
Diddorol	Dysgu	Cadwraeth	
Diddorol	Hyfforddiant	Cadwraeth	
Diddorol	Addysgol	Gwarchod	
Diddorol	Addysgiadol	Hanes Cymdeithasol	
Diddorol	Sgiliau		
Diddorol	Addysgiadol		
Diddorol	Addysgol		
Diddorol	Dadlennol		
Diddorol			
Diddorol			
Diddorol			
Diddorol			
Diddorol			
Diddorol			
Diddorol			
Diddorol			
Ysgogi'r meddwl			
Ysgogi'r meddwl			
Ysgogi'r meddwl			

Mae rhestr lawn y themâu i'w gweld yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3: Themâu yn ôl amllder			
Thema	# y geiriau mewn thema	Thema	# y geiriau mewn thema
Diddorol	42	Ymgysylltu	7
Addysgol	32	Newydd/Datblygu	6
Treftadaeth/Cadwraeth	28	Dibynadwy	6
Hwylus	19	Dwyieithog	6
Arloesol	16	Diwylliannol	5
Cadarnhaol cyffredinol	12	Hyblyg	4
Cymuned	10	Arweiniol	4
Negatif	10	Gweledol	4
Cynhwysfawr	9	Perthnasol	4
Gwerthfawr	8	Cydweithredu	3
Cwmpas Daearyddol	8	Arall	20
Cyfeillgar	8	Cyfanswm geiriau	272

Mae'n ddiddorol nodi pa eiriau sy'n cael eu hepgor gan grwpiau penodol o ymatebwyr. Er enghraifft, ni roddodd ymatebwyr yr e-holiadur unrhyw eiriau sy'n ymwneud â'r themâu "hyblyg" neu "cydweithredu". Ni wnaeth rhanddeiliaid a phartneriaid sôn am unrhyw eiriau yn ymwneud â "chwmpas" neu natur "ddwyieithog" y rhaglen. Yn olaf, ni chrybwyllodd Arweinwyr Llinynnau, y Tîm Craidd a'r Grŵp Rheoli Mewnol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel ymgylgoreion mewnol) eiriau ar y themâu canlynol: Gweledol; Diwylliannol; Ymgysylltu; Cynhwysfawr.

Mae'r cwestiwn yn dangos yn glir argraff wahanol o'r rhaglen yn ôl y gwahanol fath o gysylltiad y mae gwahanol grwpiau wedi'i gael â Chasgliad y Werin.

Cymharu ag Ymchwil Blaenorol

Mae barn ac argraff defnyddwyr wedi parhau'n gyson o ran cysylltu'r rhaglen fwyaf â gwerth addysgol a mwynhad. Roedd defnyddwyr wedi crybwyll "dwyieithog", nad oedd wedi codi gan ymatebwyr y grŵp defnyddwyr yn yr arolwg interim.

Mae barn ac argraff ymgylgoreion mewnol wedi newid mewn rhai achosion, gyda'r thema "hyblyg" wedi codi. Fel o'r blaen, nid oedd "cadwraeth" wedi'i grybwyll gan y grŵp hwn o ymatebwyr, er ei bwysleisio gan ddefnyddwyr.

Gan ddychwelyd at yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr, pan ofynnwyd i ddefnyddwyr a oeddynt yn ystyried Casgliad y Werin i fod yn unigryw, roedd mwy na 75% o'r ymatebwyr wedi ateb "ydw".

Gofynnwyd i ddefnyddwyr hefyd ddisgrifio beth y mae Casgliad y Werin yn ei gynnig nad oeddent yn gallu dod o hyd iddo rywle arall. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan ac er bod themâu yn gorgyffwrdd ac yn amrywiol, roedd y rhai allweddol yn cynnwys:

- **Mynediad** i / **cadwraeth** / **rhannu** adnoddau a fyddai fel arall wedi mynd ar goll neu'n gudd.
- Natur **benodol** y cynnwys h.y. wedi'i neilltuo ar gyfer treftadaeth Cymru.
- Natur **ddibynadwy** a gwrthrychol y safle.

Ceir rhai dyfyniadau enghreifftiol dros y dudalen.

“Platfform digidol yn seiliedig yn unig ar dreftadaeth Gymreig.”

“Mewn un lleoliad gallaf archwilio, rhannu ac ymgysylltu â hanes a diwylliant Cymru.”

“Creu straeon diwylliannol penodol mewn grŵp cymunedol gyda phobl sydd â diddordeb yng ngwerth hanes Cymru.”

“Natur wreiddiol ac ansawdd yr eitemau unigryw, boed yn sain, gweledol neu lafar wedi'u postio ar y safle.”

“Y posibilrwydd o ddysgu am orffennol a hanes Cymru a'r posibilrwydd o gyfrannu tuag ato.”

“Safbwynt personol o adegau a llefydd a fyddai fel arall heb gael eu cofnodi.”

“Mynediad i ddelweddau ac/neu wybodaeth nad yw ar gael yn unrhyw le arall mor hawdd ag y mae ar gael ar eu safle.”

“Mynediad at ddeunydd ymchwilio gwerthfawr.”

“Gwybodaeth hanesyddol a fyddai fel arall yn amhosibl cael gafael arno.”

“Gwybodaeth o ansawdd am hanes Cymru ar unrhyw adeg – ddydd neu nos.”

“Trawstoriad diduedd ac eang o ddiddordebau diwylliannol Gymreig heb unrhyw agendâu ideolegol cudd.”

“Mae i'w weld yn ffordd fwy diogel o lanlwytho eich hanes.”

“Roedd gennym gryn dipyn o reolaeth dros beth roeddem am ei gynnwys. Efallai nad yw hynny'n bwysig i rai pobl, ond mae'n bwysig i ni ac rydym am ei werthfawrogi, a'i gadw.”

Gofynnwyd i ddefnyddwyr hefyd ble arall y byddent yn disgwyl gweld cynnwys tebyg. Ailadroddodd ambell i ymatebydd nad oedd unrhyw le oedd yn cynnig yn union yr un peth, er bod awgrymiadau eraill yn cynnwys: Wikipedia, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, neu safleoedd hanes cymunedol.

Ymateb Athrawon

Nododd pedwar o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio adnoddau Casgliad y Werin fel rhan o'u rôl fel athro/athrawes neu addysgwr. Roedd yr ymatebwyr yn ymwneud ag addysgu Cyfnod Allweddol 3 a 4, addysg uwch, a dysgu oedolion (ni roddodd un defnyddiwr fanylion ynghylch hyn). Mewn dau achos, dywedodd ymatebwyr bod eu myfyrwyr wedi pori drwy'r wefan, ac mewn dau achos dywedwyd eu bod wedi defnyddio Adnoddau Dysgu Casgliad y Werin.


Gofynnwyd i athrawon ac/neu addysgwyr a yw Casgliad y Werin wedi:

1. Rhoi modd cael mwy o gyd-destun a chynnwys Cymreig yn eu haddysgu
2. Rhoi modd cael mwy o ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn eu haddysgu
3. Galluogi eu myfyrwyr i gymryd mwy o ran mewn treftadaeth ddiwylliannol
4. Cynyddu mwynhad myfyrwyr
5. Ennyn diddordeb myfyrwyr mewn ffyrdd newydd
6. Arwain at rai myfyrwyr yn cyflawni deilliannau dysgu yn fwy llwyddiannus
7. Cyfrannu at eu Datblygiad Proffesiynol Parhaus eu hunain

Roedd yr addysgwr oedd yn ymwneud â Dysgu Oedolion yn teimlo y cafwyd effaith ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd uchod 'i ryw raddau'. Soniodd addysgwr arall o fewn addysg uwch am 'ychydig' o effaith o ran mwynhad myfyrwyr a mwy o ddefnydd o'r Gymraeg wrth addysgu. Nododd yr athro Cyfnod Allweddol 3/4 effaith ar draws pob un o'r meysydd uchod, yn enwedig 1,2,3,4 a 6.

Pencampwyr Casgliad y Werin

Roedd 18 o ymatebwyr yr e-Holiadur i Ddefnyddwyr yn ystyried eu hunain yn 'Pencampwyr' Casgliad y Werin. O'r opsiynau a gynigwyd, dywedodd bron i draean yr ymatebwyr mai un o'u cymhellion dros gymryd rhan fel Pencampwr oedd i ennill sgiliau newydd. Cafodd ymatebwyr eu denu hefyd gan y cyfle i 'wneud gwahaniaeth' ac i 'wella rhagolygon gyrfa'.



Roedd bron i draean y Pencampwyr wedi rhestru cymhelliant gwahanol i'r opsiynau ateb a gynigwyd; roedd y rhain yn aml mewn cysylltiad â phrosiect penodol fel rhan o ddiddordeb personol, astudiaeth bersonol, neu fel rhan o ymrwymiad gwirfoddoli neu waith cyflogedig, er enghraifft:

"Rwyf wedi lanlwytho deunydd ar gyfer ein heglwys i greu ac archifo adnodd hanes i helpu i ddathlu canmlwyddiant y plwyf."

"Er mwyn gwneud prosiect yn fy nghwrs prifysgol."

"Er mwyn rhannu eitemau o gasgliadau'r amgueddfa, a hefyd rhai sydd wedi cael eu benthyg i ni ar gyfer prosiect, ar blatfform digidol."


Awgryma hyn fod Pencampwyr o bosibl eisoes wedi bod yn gysylltiedig â threftadaeth cyn ymgysylltu â'r rhaglen, boed hynny yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

Rôl fel Pencampwr

Mae'r gweithgareddau y mae Pencampwyr Casgliad y Werin wedi eu gwneud yn amrywio: mynychu sesiynau hyfforddi; hyrwyddo gwahanol agweddau ar y rhaglen ar-lein neu ar lafar, neu drwy fudiadau sy'n bodoli eisoes; helpu eraill i ddefnyddio'r wefan ac agor cyfrifon Casgliad y Werin; trefnu sesiynau hyfforddi i bobl eraill; a lanlwytho deunyddiau i'r safle.

Mae'r adborth hwn yn dangos bod y Pencampwyr yn adnodd gwerthfawr i'r Rhaglen, a bod eu brwdfrydedd a'u sgiliau perthnasol yn cynorthwyo i hyrwyddo'r rhaglen a chynyddu cyfranogiad a mynediad. Pe gellid ysgogi defnyddwyr ychwanegol i weithredu o blaid y rhaglen gallai hynny gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol pellach, cyn belled ag y gellid cynnal y profiad gwirfoddoli cadarnhaol a'r cydnabod cyflawniadau, e.e. fel y gwnaed mewn achlysur blaenorol yn dathlu Pencampwyr.

Gofynnwyd i ddefnyddwyr a oedd eu rôl fel Pencampwr wedi diwallu eu disgwyliadau ac roedd y mwyafrif yn glir bod hynny wedi digwydd. O'r rhai nad oeddent yn sicr, teimlai un defnyddiwr fod ganddynt "ychydig mwy i'w wneud", neu nid oeddent yn "swyddogol" yn Bencampwr.




Canlyniadau ac Effeithiau

Holwyd defnyddwyr am amrywiaeth o ganlyniadau ac effeithiau a allai fod wedi deillio o'r rhaglen.

Effeithiau Cymdeithasol


O ran effeithiau cymdeithasol, roedd nifer mwyaf y defnyddwyr a atebodd yn gadarnhaol (h.y. "ychydig" o effaith neu effaith "fawr iawn") wedi rhoi ateb yn gysylltiedig â bod y rhaglen wedi 'bod yn bleserus' a bod Casgliad y Werin wedi cynyddu "diddordeb neu falchder yn nhreftadaeth Cymru" (tua 75 y cant ym mhob achos), wedi'i ddilyn gan "gyfleoedd i gael profiadau newydd" (tua 40 y cant o'r ymatebwyr).

I ba raddau y mae eich ymwneud â Casgliad y Werin wedi effeithio ar eich bywyd cymdeithasol? A yw...




Gwybodaeth a Sgiliau

I ba raddau y mae Casgliad y Werin wedi gwella eich sgiliau digidol?



I ba raddau y mae Casgliad y Werin wedi gwella eich sgiliau digidol?




Roedd un neu ddau o ymatebwyr a nododd nad oedd eu hymwneud â rhaglen Casgliad y Werin wedi cael effaith o bwys ar eu sgiliau digidol hefyd wedi manteisio ar y cyfle yn y blwch sylwadau i ehangu fel a ganlyn:

“Rwy’n eithaf hyderus yn y maes hwn” / “Rwyf wedi dysgu popeth rydw i angen ei wybod drwy fy ngwaith.”


Gwirfoddoli Allanol

Roedd nifer o ymatebwyr yn gwneud gwaith gwirfoddoli y tu hwnt i’w cysylltiad â rhaglen Casgliad y Werin.




Roedd yr ymatebydd a nododd oriau gwirfoddol ychwanegol wedi cyfrannu 6 awr arall y mis i’w rôl gwirfoddoli o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen.

Dilyniant Gyrfa




Twristiaeth Ddiwylliannol



Gofynnwyd i'r defnyddwyr "A yw eich profiad o Gasgliad y Werin wedi eich annog i ymweld ag ardal ddaearyddol neu safle treftadaeth ffisegol?". Roedd dros 25 y cant o'r defnyddwyr a atebodd wedi dweud bod eu hymwneud â'r rhaglen wedi annog ymweliad. O ran y defnyddwyr a oedd wedi mynd ar ymweliad treftadaeth, yr hyd mwyaf cyffredin oedd taith diwrnod i ardal, er y gwnaeth un defnyddiwr nodi gwyliau 5 diwrnod neu fwy.



Gofynnwyd i ymatebwyr am ragor o wybodaeth ynghylch sut roedd Casgliad y Werin wedi cyfrannu at eu hymweliad.



Gwerth Casgliad y Werin



“Gall diwylliant cyfan fynd ar goll pan fydd un genhedlaeth wedi mynd.”

“Oherwydd fod treftadaeth Cymru ac yn wir un y Deyrnas Unedig yn haeddu platfform sydd â chyrhaeddiad byd-eang. Mae’n ddiddorol!”

“Drwy wybod am ein gorffennol gallwn efallai wneud synnwyr o’r presennol.”

“Bydd dogfennau, lluniau ac ati yn mynd ar goll os chânt eu digideiddio, ac mae’r we yn rhoi mynediad o unrhyw le yn y byd.”



“Mae gan bawb stori i’w hadrodd ac mae’n bwysig rhannu’r straeon hyn gyda’r gymuned ehangach. Ni ddylid gadael i amgueddfeydd a sefydliadau treftadaeth yn unig gofnodi hanes, mae gennym oll ran i’w chwarae.”

“Dyma’r cyfrwng a ddefnyddir fwyaf i gyfathrebu drwyddo yn yr oes sydd ohoni, mae angen estyn allan at gynifer o bobl ag y bo modd a fyddai’n hoffi gwybod am yr adnoddau hyn.”

“Does dim byd i gymryd lle cofnodi arteffactau a fyddai fel arall yn gallu mynd ar goll neu eu difrodi dros amser. Os yw rhywbeth o werth hanesyddol neu yn helpu pobl i ddeall hanes Cymru a’i phobl, yna mae angen ei gasglu a’i ddigideiddio.”

“Gallai pethau fynd ar goll, cael eu hanghofio. Mae hanes yn cael ei ysgrifennu gan y rheiny mewn pŵer yn aml gyda’u sbin, mae (Casgliad y Werin) yn rhoi cyfle i bobl normal adael eu marc hefyd.”

“Dydyn ni ddim yn gallu deall pwy ydyn ni oni bai ein bod yn gwybod beth sydd wedi’n siapio ni a’r amgylchedd rydym yn byw ynddo. Mae Casgliad y Werin yn ei gwneud yn haws i ymchwilio a rhannu ein cenedl unigryw a rhagorol.”



Gofynnwyd y cwestiwn hwn i’r defnyddwyr, “Petai rhywun yn gofyn pam y dylent ymwneud â Chasgliad y Werin, beth fydddech yn ei ddweud?”

Mae detholiad o ddyfyniadau gan yr ymatebwyr i’w gael drosodd.

“Os ydyn nhw angen dod o hyd i adnoddau am Gymru, boed hynny at ddibenion hel achau neu hanes cymdeithasol, byddan nhw’n dod o hyd i gymaint ar y safle hwn.”

“Mae’n gwneud yn siŵr fod ein treftadaeth yn cael ei diogelu ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol - hyd yn oed os bydd y cymunedau gwledig hynny wedi diflannu wrth i ysgolion, siopau pentref, tafarndai, capeli, eglwysi ac ati gau eu drysau a does yna ddim mannau cyfarfod cymunedol.”

“Cyfle i ddatblygu sgiliau a chymryd rhan mewn ffordd werthfawr i gyfrannu at ddiwylliant a hanes Cymru.”

“Mae Casgliad y Werin yn rhoi cyfle i bobl ddatblygu sgiliau digidol ac adrodd stori Cymru. Unwaith rydych yn dechrau pori drwy’r safle cewch eich dychryn a’ch cyffroi gan beth wnewch chi ei ganfod.”

“Rydych yn helpu i achub treftadaeth Cymru gan y werin ar gyfer y werin. Mae’n ffordd ddiogel ac onest o edrych ar fywyd beunyddiol.”